Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

Monitro

Pwynt Gweithredu HS15.1

i. *Y Cyngor i ddileu 'neu fwy' o bob dangosydd sy'n dweud 2 flynedd neu fwy yn olynol.*
ii. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd, gan wahanu darpariaeth tai fforddiadwy oddi wrth ddarpariaeth tai'r farchnad.*
iii. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro rhaniad deiliadaeth (rhent cymdeithasol a chanolradd).*
iv. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawni yn erbyn trothwyon tai fforddiadwy a thargedau canrannol ar gyfer safleoedd tir glas a thir llwyd.*
v. *Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawniad Parc Caerdydd (dyraniad EC2 blaenorol).*
vi. *Y Cyngor i ddiwygio'r sbardun i 1.8, cyfeirio at EC3 ac EC5 ac ystyried cynnwys dangosydd sy'n ymwneud â maint y safle.*
vii. *Y Cyngor i adolygu addasrwydd defnyddio lefelau cyfartalog tai gwag yn y DU (2.3).*
viii. *Y Cyngor i ddiwygio 2.4 i gyfeirio at Bolisi R6.*
ix. *Y Cyngor i adolygu a oes angen cynnwys dangosydd ar gyfer Polisi PC1 ac, os felly, perthnasedd ARhAAau fel mesur o berfformiad Polisi PC1 (2.7).*
x. *2.8, i'w ddileu.*
xi. *Y Cyngor i ystyried sbardun i fonitro capasiti gwastraff (2.9).*
xii. *Y Cyngor i adolygu 2.15 i gysylltu â'r Cynllun Seilwaith.*
xiii. *Y Cyngor i ystyried a oes angen monitro 3.1 i 3.4.*
xiv. *Y Cyngor i adolygu'r targed a'r sbardun ar gyfer 3.6 i sicrhau eu bod yn cyfateb.*
xv. *Y Cyngor i egluro dros ba ardal y mae'r 2.43ha fesul 1000 o'r boblogaeth yn cael ei fesur a chynnwys hynny yn y targed/sbardun.*
xvi. Y Cyngor i adolygu a yw'n angenrheidiol monitro 3.10 a 3.11.

Ymateb y Cyngor

i. Y Cyngor i ddileu 'neu fwy' o bob dangosydd sy'n dweud 2 flynedd neu fwy yn olynol.

Cytunwyd bod y Cyngor yn cynnig dileu cyfeiriad at 'neu fwy' yn Dangosyddion 1.7 a 1.9 a'r Dangosydd Cyd-destunol sy'n ymwneud â % o'r boblogaeth yn y 100 ward â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

ii. Y Cyngor i greu dangosydd newydd, gan wahanu darpariaeth tai fforddiadwy oddi wrth ddarpariaeth tai'r farchnad.

Cytunwyd bod y Cyngor yn cynnig gwahanu Dangosydd 1.3 yn ddau ddangosydd ar wahân:

- *Nifer y tai marchnad cyffredinol ychwanegol a adeiledir dros gyfnod y cynllu*n
- *Nifer y tai fforddiadwy ychwanegol a adeiledir dros gyfnod y cynllun*

iii. Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro rhaniad deiliadaeth (rhent cymdeithasol a chanolradd).

Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r dangosyddion hyn yn angenrheidiol gan fod dangosydd eisoes wedi'i gynnwys i fesur nifer y cartrefi fforddiadwy a gaiff eu cwblhau dros gyfnod y cynllun ac nid yw'r cynllun yn cynnwys targedau ar wahân ar gyfer tai rhent cymdeithasol a thai fforddiadwy canolradd.

Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawni yn erbyn trothwyon tai fforddiadwy a thargedau canrannol ar gyfer safleoedd maes glas a thir llwyd.

Cytunwyd fod y Cyngor yn cynnig dangosyddion newydd i ddarllen fel a ganlyn:

- *Canran y tai fforddiadwy ar y cam cwblhau a ddarparwyd mewn datblygiad o 5 annedd neu fwy ar safleoedd maes glas dros y ddwy flynedd ddiwethaf (Targed 30%)*
- *Canran y tai fforddiadwy ar y cam cwblhau a ddarparwyd mewn datblygiad o 5 annedd neu fwy ar safleoedd tir llwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf (Targed 20%)*

v. Y Cyngor i greu dangosydd newydd sy'n monitro cyflawniad Parc Caerdydd (dyraniad EC2 blaenorol).

Cytunwyd bod y Cyngor yn cynnig bod y dangosydd newydd yn cyd-fynd â nifer y swyddi a ddarperir ar y safle. Felly, byddai'r safle yn darparu 2,000 o swyddi ar 30,000m2, tua 3,300 o swyddi ar 50,000m2, ac o bosibl yn cynyddu tuag at 6,000 o swyddi wrth i'r datblygiad llawn gael ei gwblhau a'i feddiannu.

vi. Y Cyngor i ddiwygio'r sbardun i 1.8, cyfeirio at EC3 ac EC5 ac ystyried cynnwys dangosydd sy'n ymwneud â maint y safle.

Cytunwyd bod y Cyngor yn bwriadu diwygio'r dangosydd fel a ganlyn (ychwanegiadau wedi'u tanlinellu):

- Colli un neu fwy o adeiladau a feddiannir (dros 1000 metr sgwâr) neu barsel o dir (Dros 0.2 ha) o fewn prif safleoedd cyflogaeth neu rai lleol (Polisi EC3) oni bai ei fod yn unol â Pholisi EC5

vii. Y Cyngor i adolygu addasrwydd defnyddio lefelau cyfartalog safleoedd gwag y DU (2.3).

Mae'r Cyngor o'r farn mai lefelau gwag cyfartalog y DU yw'r mwyaf addas gan eu bod yn galluogi cymhariaeth â dinasoedd mawr tebyg eraill ledled y DU.

viii. Y Cyngor i ddiwygio 2.4 i gyfeirio at Bolisi R6.

Cytunwyd fod y Cyngor yn cynnig diwygio Dangosydd 2.4 i gyfeirio at Bolisi R6:

- *Nifer y datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal nad ydynt yn unol â Pholisi R6 ac asesiad o angen a glynu'n gaeth wrth y prawf dilyniannol.*

ix. Y Cyngor i adolygu a oes angen cynnwys dangosydd ar gyfer Polisi PC1 ac, os felly, perthnasedd ARhAAau fel mesur o berfformiad Polisi PC1 (2.7).

Mae'r Cyngor yn cynnig bod Dangosydd 2.7 yn cael ei ddileu gan nad yw'r mesur perfformiad arfaethedig yn uniongyrchol berthnasol.

x. 2.8, i'w ddileu.

Mae'r Cyngor yn cytuno i'w ddileu.

xi. Y Cyngor i ystyried sbardun i fonitro capasiti gwastraff (2.9).

Mae'r Cyngor yn cynnig y sbardun canlynol:

Diffyg a nodwyd o ran capasiti neu fath o gyfleuster i ddarparu ar gyfer gofynion gwastraff Caerdydd

xii. Y Cyngor i adolygu 2.15 i gysylltu â'r Cynllun Seilwaith

Cytunwyd bod y Cyngor yn cynnig diwygio'r dangosydd fel a ganlyn (tanlinellir testun ychwanegol):

Darparu seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy newydd fel y nodir yn y Cynllun Seilwaith gan gynnwys Coridorau Bysiau Cyflym, Rhwydwaith Beicio, Hybiau Trafnidiaeth a chynlluniau CTL i liniaru effeithiau datblygu a chefnogi newid moddol

xiii. Y Cyngor i ystyried a oes angen monitro 3.1 i 3.4

Mae'r Cyngor yn cytuno i'w dileu.

xiv. Y Cyngor i adolygu'r targed a'r sbardun ar gyfer 3.6 i sicrhau eu bod yn cyfateb

Cytunwyd bod y Cyngor yn bwriadu diwygio'r targed i (tanlinellir testun ychwanegol)

Darperir digon o SG ar safleoedd datblygu yn unol â'r CCA SG.

xv. Y Cyngor i egluro dros ba ardal y mae'r 2.43ha fesul 1000 o'r boblogaeth yn cael ei fesur a chynnwys hynny yn y targed/sbardun.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod hyn wedi'i ddiffinio yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, ac fe gynigir diwygio'r targed/sbardun i ddatgan (tanlinellir y testun ychwanegol):

2.43 Ha o ofod agored swyddogaethol fesul 1,000 o'r boblogaeth fel y'i diffinnir yn y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio

xvi. Y Cyngor i ystyried a oes angen monitro 3.1 a 3.4.

Mae'r Cyngor o'r farn bod 3.10 sy'n monitro datblygiadau o fewn y parth clustogi yn angenrheidiol i ddiogelu cronfeydd mwynau yn ddigonol rhag datblygiad amhriodol a allai eu sterileiddio.